**CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2011**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd (Cadair)<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Jim Evans, K. Evans, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, T. Ll. Hughes, W. T. Hughes, K. P. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, Rhian Medi, C. McGregor, Bryan Owen, R. L. Owen, J. V. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, P. S. Rogers, Ieuan Williams, H. W. Thomas, J. P. Williams, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Polisi Cynllunio<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Swyddog Cyfathrebu. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr Alex Aldridge, M Giannasi a Gareth Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr C. Ll. Everett, Ff. M. Hughes, J. Arwel Roberts, G. W. Roberts OBE, E. Schofield. |

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd E. G. Davies

**CYFLWYNIADAU**

Cyflwynodd Cadeirydd y Cyngor Sir Wobrau Chwaraeon Ynys Môn am 2011 ar gyfer y categorïau a ganlyn:

Geneth y Flwyddyn – Cari Llyr Hughes
Bachgen y Flwyddyn – Connor Laverty
Tîm y Flwyddyn - Tîm Hwylio Ynys Môn
Seren Chwaraeon y Flwyddyn – Gareth Evans
Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn – Sacha Jones
Cyd-wirfoddolwyr y Flwyddyn – Liz Williams a Darren Owen

Achubodd y Cadeirydd ar y cyfle i gyfeirio at y ffaith y byddai Mr. Aled Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Hamdden a Chymunedau'n ymddeol gyda hyn ac yntau wedi gweithio i'r Awdurdod hwn ers 1998. Talodd deyrnged iddo am ei waith gan ddiolch iddo ar ran y Cyngor am ei gyfraniad gwerthfawr iawn tuag at godi proffil y Gwasanaeth Ieuenctid ym Môn. Ar ran y Cyngor, dymunodd iddo ymddeoliad hir a hapus.

Achubodd y Cadeirydd ar y cyfle hefyd i ddiolch i Sian Mai Jones, Prif Swyddog Datblygu Chwaraeon, am ei gwaith yn trefnu'r Seremoni Wobrwyo.

**1 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 13 Medi 2011
- 26 Medi 2011 (Arbennig)
  (yn amodol ar i enw'r Cynghorydd Rhian Medi gael ei gynnwys yn y rhestr o Aelodau oedd yn bresennol)

Holodd y Cynghorydd Rhian Medi a oedd y datganiad o ddiddordeb wnaed gan y Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni wedi'i roi yn y cyfarfod neu trwy lenwi'r ffurflen berthnasol ar ôl y cyfarfod. Y rheswm yr oedd yn gofyn hyn oedd oherwydd nad oedd wedi clywed beth yn union oedd y diddordeb arbennig.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd y wybodaeth ganddo ar y funud ond y byddai yn chwilio am y wybodaeth yr oedd y Cynghorydd yn ei cheisio.

- 17 Hydref, 2011 (Arbennig)

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Prif Weithredwr ddiddordeb ar ran aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol yn eitem 16 o'r cofnodion hyn gan ddweud na fyddent yn aros yn y cyfarfod pe bai'r mater hwnnw'n cael ei drafod.

Er nad oedd yn bresennol yn y Cyngor heddiw, roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol) wedi datgan diddordeb yn Eitemau 9 ac 16 o'r cofnodion hyn).

**3 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIAD GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Roedd y Cadeirydd am longyfarch y Cynghorydd John Arwel Roberts ar ei briodas yn ddiweddar. Estynnodd ei ddymuniadau gorau iddo ac i'w wraig Sioned i'r dyfodol.

Llongyfarchwyd pob un o'r rhai oedd wedi ymwneud â'r Noson Wobrwyo Ieuenctid a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor ar noswaith 3 Tachwedd 2011. Bu'n noson hynod o lwyddiannus ac fel y dywedodd Mr. Richard Parry Jones ar y noson, mae gan Fôn yn awr y Gwasanaeth Ieuenctid cryfaf yng Nghymru. Diolchwyd i bawb am eu gwaith caled a llongyfarchwyd y bobl ifanc am eu cyfraniad gwerthfawr.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r rhai oedd yn gysylltiedig â Noson Wobrwyo Ysgolion Iach Ynys Môn a gynhaliwyd yn Neuadd Tre-Ysgawen ar 9 Tachwedd 2011.

Llongyfarchwyd hefyd bob ysgol a mudiad cyn-ysgol oedd wedi cyfrannu tuag at y fenter Ysgolion Iach, yn cynnwys disgyblion, staff, gofalwyr, llywodraethwyr, rhieni a chyfeillion. Llongyfarchwyd pob un o'r ysgolion oedd wedi derbyn gwobr.

Llongyfarchiadau i Debra Roberts a Sian Pritchard oedd wedi ennill gwobrwyon cenedlaethol pwysig i gydnabod eu hymrwymiad i iechyd a lles disgyblion yn eu hysgolion cynradd. Roedd y ddwy yn gweithio i Wasanaethau Bwyd Eden oedd yn rhedeg y contract arlwyo ysgolion i Ynys Môn ac fe enillodd y ddwy Wobr y Filltir Ychwanegol oedd yn cydnabod cyraeddiadau'r bobl oedd yn gweithio i Initial Facilities, rhiant gwmni Eden. Fe enillwyd y gwobrwyon yn wyneb cystadleuaeth gref o blith 40,000 o weithwyr Initial Facilities trwy'r DU. Roedd Debra'n gweithio yn Ysgol Biwmares a Sian yn Ysgol Henblas, Llangristiolus.

Estynnwyd llongyfarchiadau i bawb o Ynys Môn a fu'n llwyddiannus yn y Gystadleuaeth Gwir Flas yn ddiweddar, ac roedd y Cyngor yn falch iawn ohonynt am wneud mor dda mewn cystadleuaeth genedlaethol.

Llongyfarchiadau i Fand Biwmares ddaeth yn bedwerydd trwy Brydain gyfan mewn cystadleuaeth i fandiau pres a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y Royal Albert Hall, Llundain.

Crybwyllodd y Cadeirydd bod yr Awdurdod hwn a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wedi cytuno i gefnogi rhaglen genedlaethol i ddathlu Jiwbilî Diemwnt y Frenhines yn 2012 a'r Gemau Olympaidd. Roedd yr Awdurdod hwn wedi enwebu maes chwarae poblogaidd yng Nghlôs Tomas, Biwmares i'w ystyried ar gyfer Her Caeau Chwarae'r Frenhines Elizabeth II mewn cyfarfod yn ddiweddar. Roedd y prosiect hwn dan arweiniad ei noddwr, Dug Caergrawnt, yn rhaglen i ddiogelu llecynnau hamdden awyr agored 2012 ar draws y wlad i ddathlu'r ddau achlysur mawr. Roedd y prosiect yn fersiwn fodern o brosiect Caeau Coffa'r Brenin Siôr V, pryd cafodd 471 o gaeau ar draws y DU eu hailenwi yn 1936.

Dymunwyd ymddeoliad hir a hapus i'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes a fydd yn ymddeol o'r Awdurdod Ambiwlans yn y man.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd W. J. Chorlton gyfleu llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Cliff Everett ar ddod yn daid am yr ail waith.

Ar nodyn mwy trist, cydymdeimlwyd o waelod calon â Mr a Mrs Wyn Roberts, Mari a Ffion, mam a thad a chwiorydd Tomos Roberts, fu farw mewn damwain ffordd drist fel cerddwr yn Llangefni yn ddiweddar. Roedd meddyliau'r Cyngor gyda'r teulu a'r cyfeillion yn eu colled enfawr. Roedd Mari'n gweithio gyda'r Tîm Plant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Mrs Lian Roberts, ei fam, yn athrawes yn Ysgol Uwchradd Llangefni. Fel ffrindiau a chydweithwyr, roedd y Cyngor am anfon ei gydymdeimlad llwyraf.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Gary Speed, Rheolwr Tîm Pêl-droed Cymru. Fel cenedl, roedd pawb wedi dychryn gyda'r newyddion trist. Roedd Gary Speed yng Nghaergybi ddim ond wythnos cyn ei farwolaeth lle bu'n mynychu digwyddiad codi arian lle gwirfoddolodd i siarad am ei waith fel rheolwr ac arwyddo crysau pêl-droed ac ati - roedd hyn yn arwydd o'r math o ddyn oedd Gary. Estynnwyd cydymdeimlad llwyraf y Cyngor i'w deulu a'i gyfeillion ac i'r byd pêl-droed yn eu colled fawr. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi anfon llythyr o gydymdeimlad i'w deulu ar ran y Cyngor a phobl Ynys Môn.

Cydymdeimlwyd hefyd â Miss Einir Thomas, Pennaeth Gwasanaeth Cyllid ar golli ei mam yn ddiweddar.

Roedd y Cadeirydd hefyd am gydymdeimlo gydag unrhyw Aelod arall o'r Cyngor neu staff oedd wedi colli perthynas.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

Adroddwyd gan y Prif Weithredwr - oherwydd nad oedd y Comisiynwyr Byron Davies, Margaret Foster a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro wedi gallu bod yn bresennol heddiw oherwydd y tywydd gwael oedd wedi effeithio ar y daith hedfan o Gaerdydd, roedd y cyfarfod o'r Pwyllgor Penodi gynhaliwyd ynghynt yn y dydd wedi penderfynu gohirio ystyried yr adroddiad ar yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth a Threfniadau Sefydliadol y Gwasanaethau Corfforaethol hyd ddydd Llun nesaf am 9:00am. Gofynnodd y Prif Weithredwr felly i'r Cyngor ohirio'r eitem hon ar raglen y Cyngor ac yn yr un modd yr eitem oedd yn ymwneud â'r Datganiad ar Strategaeth y Gyllideb i gyfarfod o'r Cyngor hwn a ohiriwyd y dydd Mawrth dilynol, gyda chyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir i ddilyn i ddelio gyda'r adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn. Byddai llythyr yn cael ei anfon allan i'r holl Aelodau heno ynglŷn â'r trefniadau newydd.

**PENDERFYNWYD cytuno gyda'r camau hynny.**

## 4. ADRODDIAD GWAITH Y COMISIYNWYR AR YR AIL CHWARTER

[Noder: Ar gais y Comisiynwyr, fe ddeliwyd â'r eitem hon fel eitem eithriedig. Cyfeirier, felly, os gwelwch yn dda at eitem 15 y cofnodion hyn].

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 6. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

### 6.1 Ychwanegiad at y ddeddfwriaeth yn yr Atodiad i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ym mharagraff 3.5.3.15

Adroddwyd – bod y Bwrdd Comisiynwyr ar ôl ystyried yr uchod yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2011 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"I argymell i'r Cyngor ac i Weinidogion Cymru, y dylid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor drwy ychwanegu'r ddeddfwriaeth yn CH 1.2 yr adroddiad at yr Atodiad yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn 3.5.3.15 ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad".*

**6.2 <u>Newidiadau i'r "Nodyn", sy'n cyfeirio at y diffiniad o "diwrnod", sy'n dilyn y Mynegai ar ddechrau'r Cyfansoddiad</u>**

Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr, ar ôl ystyried yr uchod yn eu cyfarfod ar 28 Tachwedd 2011, wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"I argymell i'r Cyngor ac i Weinidogion Cymru, y dylid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor trwy newid y "Nodyn" i'r ffurf yn CH 2.3 yr adroddiad ac awdurdodi Swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad".*

Cyflwynwyd – Adroddiad y Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro fel y cafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 28 Tachwedd 2011 mewn perthynas â'r newidiadau uchod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr uchod i Weinidogion Cymru.**

**7. PENODI PWYLLGOR SAFONAU NEWYDD**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro ar y penodiadau wnaed i'r Pwyllgor Safonau newydd.

Dywedwyd (inter-alia) - Ymysg ei aelodaeth, roedd yn y Pwyllgor Safonau cyfredol dri Cynghorydd Sir, sef y Cynghorydd T. Ll. Hughes, J. Arwel Roberts ac Ieuan Williams. Fel yr eglurwyd ym Mhara 5 yr adroddiad, roedd rhaid yn awr gostwng nifer y Cynghorwyr Sir o 3 i 2 o 13 Rhagfyr 2011 ac roedd yn rhaid i'r Cyngor heddiw wneud y penodiadau hynny. Nid oedd unrhyw enwau eraill yn cael eu cynnig.

Pleidleisiwyd ar hyn ac fe benderfynodd y Cyngor benodi'r Cynghorydd T. Ll. Hughes ac Ieuan Williams fel ei ddau gynrychiolydd ar y Pwyllgor Safonau.

*(Roedd y Cynghorydd B. Durkin yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod wedi aros yn y cyfarfod ond nad oedd wedi cymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater).*

*(Roedd y Cynghorydd P. S. Rogers yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oedd wedi cymryd unrhyw ran yn y pleidleisio ar y mater)*

*(Roedd y Cynghorydd Rhian Medi yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oedd hi wedi pleidleisio ar y mater oherwydd bod un o'r Aelodau Annibynnol a enwyd yn aelod o Fwrdd Medrwn Môn).*

**PENDERFYNWYD**

- **I ddod i rym o 18 Rhagfyr 2011, hyd 17 Rhagfyr 2015, bod y Cyngor yn penodi'r Aelodau Annibynnol canlynol i'r Pwyllgor Safonau:-**

  **Mrs Denise Harris-Edwards**
  **Mr Islwyn Jones**
  **Mr Leslie Lord**
  **Mrs Dilys Shaw**
  **Mr Michael Wilson**

- **I ddod i rym o 18 Rhagfyr 2011 hyd 17 Rhagfyr 2015 neu am y cyfnod tan etholiadau cyffredin y Cynghorau Cymuned y mae'r Aelod Cyngor Cymuned yn aelod ohono yn dilyn penodi'r person hwnnw fel Aelod Cyngor Cymuned y gymuned honno, p'un bynnag yw'r cyfnod byrraf a bod y Cyngor yn penodi'r Cynghorydd W. Raymond Evans o Gyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog a'r Cynghorydd John Roberts o Gyngor Cymuned Llanfairpwll fel dau gynrychiolydd y Cynghorau Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau.**

- **I ddod i rym o 18 Rhagfyr 2011 hyd 17 Rhagfyr 2015 neu am y cyfnod tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf i Gyngor Sir Ynys Môn yn dilyn penodi'r person hwnnw fel Aelod o Bwyllgor Safonau'r Awdurdod hwn, p'un bynnag yw'r byrraf, bod y Cyngor yn penodi'r Cynghorwyr Sir T. Lloyd Hughes ac Ieuan Williams i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.**

- **Bydd Panel Dewis y Pwyllgor Safonau yn parhau mewn grym i bwrpas llenwi unrhyw seddi gweigion achlysurol a all godi hyd oni fydd Panel newydd yn cael ei sefydlu yn 2015.**

**8. DATGANIAD AR STRATEGAETH GYLLIDEBOL 2012-13**

**PENDERFYNWYD gohirio'r mater hyd ddydd Mawrth nesaf, yn dilyn y cyfarfod arbennig o'r Cyngor sir i drafod adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.**

**9. POLISI CYNLLUNIO DROS DRO – TAI MEWN CLYSTYRAU GWLEDIG**

Adroddwyd – Bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2011 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir y dylid mabwysiadu'r Polisi Clystyrau Gwledig fel Polisi Dros Dro hyd nes y bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn cael ei fabwysiadu yn 2016".*

(b) Cyflwynwyd – Adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fel y cafodd ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 28 Tachwedd 2011.

Mynegodd y Cynghorydd A. Morris Jones bryderon ynglŷn â'r polisi, i'r graddau bod yna reol bod raid i'r cyhoedd allu cyrraedd y prif ganolfannau gwaith ar yr Ynys ar gludiant cyhoeddus erbyn 9:00am. Roedd o'r farn y dylid newid hyn i ddarllen 9:15am ac y dylid ystyried gwneud defnydd o fysus ysgol. Wrth wneud hynny, byddai'r Cyngor yn sicrhau bod mwy o'r ceisiadau hyn yn cael eu caniatáu. At hyn, lle'r oedd yna glystyrau, a chan dderbyn ar ba bynnag lonydd yr oeddent arnynt, fe ddylid derbyn unrhyw ffordd y gall loriau gwastraff y Cyngor fynd ar ei hyd fel priffordd gyhoeddus. Byddai unrhyw dai ar y ffordd honno, felly, yn cael eu cyfrif fel rhai ar ffordd gyhoeddus.

Dywedodd y Deilydd Portffolio a'r Pennaeth Gwasanaeth bod y polisi wedi'i drafod yn y Pwyllgor Sgriwtini ar ddau achlysur, a'i fod wedi bod allan i ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos ac wedi'i anfon ymlaen i aelodau'r Cyngor. Pe bai'r polisi'n cael ei newid yn awr, byddai'n rhaid i'r Swyddogion fynd drwy'r holl broses ymgynghori unwaith yn rhagor.

Holodd y Cynghorydd A. Morris Jones a oedd gan y Cyngor hawl ai peidio i drafod materion polisi yn y Cyngor.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod y Cynghorydd yn gywir yn hynny o beth, sef mai materion o bolisi strategol oedd yn cael eu penderfynu gan y Cyngor. Fodd bynnag, yng nghyswllt y ddau ddiwygiad dan sylw, ni fyddai ef yn bersonol yn hapus i weld y Cyngor yn mabwysiadu'r rhain heb yn gyntaf fod wedi cael y cyfle i amlinellu mewn manylder beth fyddai goblygiadau'r fath newidiadau i'r Cyngor. Nid oedd y Swyddogion mewn sefyllfa heddiw i roi cyfarwyddyd clir a chadarn i'r Cyngor. O safbwynt y cynnig ynghylch ffordd gyhoeddus, roedd yna ddiffiniadau cyfreithiol o'r hyn oedd yn cyfateb i ffordd gyhoeddus ac fe fyddai angen i'r Swyddogion ystyried y diffiniadau hynny cyn y gallai'r Cyngor wneud unrhyw benderfyniad.

Yng nghyswllt y mater bysus / cludiant ysgol, ni fyddai'n gyfforddus gyda diffinio cludiant ysgol fel cludiant cyhoeddus oherwydd bod yna faterion sgrinio CRB i'w hystyried. Roedd yna gyfrifoldeb i sicrhau bod ein plant ysgol yn ddiogel.

Gofynnodd y Cynghorydd B. Durkin am gyngor cyfreithiol trwy fod y mater arbennig hwn wedi cael ei gyfeirio i'r Cyngor gan y Comisiynwyr gydag argymhelliad fel oedd yn y papurau. Fodd bynnag, nid oedd cyfnod galw i mewn benderfyniad y Comisiynwyr yn dod i ben tan 5:00pm nos fory a chwestiynodd a oedd y Cyngor wedi torri'r Cyfansoddiad?

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro iddi gael cyngor gan y Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor y dylai'r penderfyniad gafodd ei gylchredeg fod wedi cynnwys eglurhad yn dweud nad oedd yn destun ar gyfer ei alw i mewn oherwydd ei fod yn fater gerbron y Cyngor llawn. Roedd hwn yn eithriad i'r drefn galw i mewn, yn yr ystyr y gallai'r holl aelodau gyfranogi yn y penderfyniad heddiw. Nid oedd, felly, yn mynd yn groes i'r Cyfansoddiad.

Yn dilyn clywed yr eglurhad a roddwyd gan y Prif Weithredwr, roedd y Cynghorydd A. Morris Jones dymuno newid ei gynnig. Ei ddymuniad oedd tynnu yn ôl y cyfeiriad at fysus ysgol, ond roedd yn dymuno symud ymlaen gyda'r diwygiad i dderbyn bod unrhyw ffordd yn briffordd gyhoeddus pe bai unrhyw gerbyd tebyg i gerbyd sbwriel y Cyngor yn gallu mynd i lawr y ffordd honno a hefyd y dylai'r amser teithio i'r gwaith gael ei ymestyn i 9:15am. Eiliwyd y gwelliant.

Ceisiodd y Cynghorydd A. Morris Jones gael sicrwydd ei fod wedi dilyn gweithdrefnau'r Cyngor yn y cyswllt hwn?

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro mai dyma oedd yr achos.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ond ni chafodd ei gario.

*(Roedd y Cynghorydd Raymond Jones yn dymuno iddo gael ei gofnodi nad oedd wedi pleidleisio ar y mater hwn).*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr bod y Polisi Clystyrau Gwledig yn cael ei fabwysiadu fel Polisi Dros Dro hyd nes y bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn 2016.**

## 10. CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATODOL – CYFARWYDDYD DYLUNIO AR GYFER YR AMGYLCHEDD TREFOL A GWLEDIG

Cyflwynwyd – Adroddiad y Rheolwr Cynllunio (Polisi) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer mabwysiadu'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol a fu allan yn ddiweddar ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ac a oedd hefyd wedi cael ei sgriwtineiddio a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor.

Adroddwyd – ym mis Mai 2008, fe fabwysiadodd y Cyngor CCA newydd – ‘Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig’ oedd yn darparu cyfarwyddyd cryno ar wahanol faterion dyluniad oedd yn gyffredin mewn ceisiadau cynllunio.

Roedd un o’r nodiadau cyfarwyddyd yn delio gydag addasu adeiladau allanol gwledig yn anheddau preswyl ac roedd hyn wedi’i ddefnyddio fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau newydd mewn cynlluniau addasu. Roedd wedi dod i’r amlwg dros y 12-18 mis diwethaf y dylai’r nodyn gael ei ddiweddaru er mwyn iddo ddarparu cyfarwyddyd mwy manwl a chlir ar yr hyn oedd yn dderbyniol mewn termau dylunio.

Byddai’r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol newydd hwn yn ffurfio rhan o’r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd: ‘Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig’ fyddai’n dod yn lle’r nodyn cyfarwyddyd blaenorol ‘Adeiladau yn y Cefn Gwlad’. Y teimlad oedd bod fersiwn newydd y nodyn cyfarwyddyd yn fwy cadarn ac yn rhoi mwy o wybodaeth na’i ragflaenydd yn dilyn cyfnod hir o ymgynghori mewnol ac allanol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu’r Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.**

## 11. DIRPRWYIADAU

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad yn nodi unrhyw newidiadau i’r cynllun dirprwyo mewn perthynas â Swyddogaethau gweithredol y Comisiynwyr ers y cyfarfod arferol diwethaf (Rheol 4.4.1.4 o Reolau Gweithdrefn y Cyfansoddiad).

**PENDERFYNWYD nodi’r wybodaeth**

## 12. AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – Adroddiad llafar gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, un o gynrychiolwyr y Cyngor hwn ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Medi 2011 a 30 Tachwedd 2011.

Adroddwyd - Bod rhaid i’r Awdurdod wneud arbedion o £2.4m dros 3 blynedd. Y flwyddyn hon, roedd yr Awdurdod wedi mynd y tu hwnt i’w darged o arbed £800,000 trwy ostwng rhai llinellau cyllidebol, swyddi diogelwch cymunedol a staff cefnogol a therfynu rhai dyletswyddau anstatudol. Roedd y prif arbediad wedi dod o gynnal adolygiad o wasanaeth llanw ar gyfer swyddogion. Un o ganlyniadau’r adolygiad oedd lleihau’r sefydliad rheolwyr canol gweithredol gan 8 swydd, gan wneud arbediad o £450,000. Oherwydd cynllunio tymor hir wnaed yn gynharach gallwyd sicrhau hyn heb yr angen i ddiswyddo. Roedd yn beth pleserus nodi bod y strwythur newydd i’w weld yn gweithio’n dda.

Byddai angen arbed £815,000 arall yn 2012-13. Fe gytunodd yr Awdurdod mewn cyfarfod ym mis Hydref i adolygu ac ailstrwythuro system restr ddyletswyddau'r diffoddwyr tân. Amcanion yr Awdurdod oedd sicrhau bod y nifer cywir o ddynion tân sgilgar ar gael bob amser i fynd i ddigwyddiadau tra’n parhau i sicrhau’r lefel angenrheidiol o arbedion.

Roedd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ac Uwch Reolwyr wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Undebau’r Frigâd Dân i drafod y mater hwn ar bedwar achlysur. Roedd y ddau barti’n cydnabod natur ddifrifol y sefyllfa ariannol ac yn gweithio gyda’i gilydd i ganfod tir cyffredin er mwyn datblygu ffyrdd newydd o weithio. Roedd cynrychiolwyr yr Undebau wedi siarad gyda’r dynion tân ac wedi adrodd yn ôl eu pryderon. Ar hyn o bryd, roeddent yn chwilio am system restr ddyletswyddau arall, fyddai’n ateb y pryderon.

Mewn cyfarfod diweddar, fe drafodwyd agweddau cyfreithiol diswyddo ac fe ddechreuwyd datblygu'r meini prawf ar gyfer asesu'r gweithwyr hynny allai ddod o fewn sgôp diswyddo. Fodd bynnag, roedd yn rhaid ailddweud mai diswyddo fyddai'r opsiwn olaf ac fe fyddid yn ceisio osgoi hynny ar bob cyfrif.

Fe barhaodd y gweithio mewn partneriaeth ar draws y Gwasanaeth a dros yr wythnos ddiwethaf, roedd y gwasanaeth wedi bod yn ymweld â gwahanol rannau o Ynys Môn gyda Thîm Plismona Cymdogaeth Ynys Môn ac aelodau o Banel Atal Trosedd yr Ynys. Roedd staff wedi bod yn rhannu canhwyllau yn gweithio hefo batris ac yn rhoi cyngor ynglŷn â diogelwch tân yn cynnwys defnydd diogel o oleuadau coed Nadolig, canhwyllau a phwysigrwydd coginio'n ddiogel.

Holodd y Cynghorydd W. J. Chorlton a fyddai'r camau diswyddo'n cael eu gwneud ar yr ochr weinyddol ynteu ar ochr weithredol y Gwasanaeth?

Dywedodd y Cynghorydd A. Morris Jones nad oedd mewn sefyllfa i gadarnhau dim byd ar hyn o bryd oherwydd bod y trafodaethau'n parhau gyda'r FBU.

Holodd y Comisiynydd Alex Aldridge a oedd unrhyw doriadau'n cael eu rhagweld gyda'r mesurau ataliol o osod larymau tân am ddim ar draws y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru?

Mewn ateb dywedodd y Cynghorydd A. Morris Jones bod yr Awdurdod presennol wedi rhoddi adnoddau ychwanegol ar gyfer gwiriadau diogelwch tân ac roeddent yn parhau i geisio cynnal a chadw'r gwasanaeth pwysig hwnnw.

Holodd y Cynghorydd W. J. Chorlton a oedd gan yr Awdurdod bolisi ai peidio i adael i bobl ymddeol ac yna ddychwelyd yn ôl i'r gwaith?

Dywedodd y Cynghorydd A. Morris Jones bod hwn yn bolisi cenedlaethol yr oedd y Cynghorydd yn ymwybodol ohono.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 13. AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd - Adroddiad llafar gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Medi a 30 Tachwedd 2011.

Adroddwyd – Un o'r agweddau mwyaf cadarnhaol dros y 3 mis diwethaf oedd y cyhoeddiad bod yr Awdurdod Heddlu'n derbyn ceisiadau am aelodau newydd ac fe fyddai rhai o'r ceisiadau yn mynd gerbron y Panel perthnasol yn y flwyddyn newydd. Byddai'r llywodraeth hefyd yn ariannu oddeutu 100 PCSO yn rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd y gwaith a wnaed gan y PCSO wedi bod yn waith da iawn a'r gobaith oedd y byddai hyn yn un ffordd i rai o'r PCSO ymuno â'r Heddlu.

Roedd pryder wedi cael ei leisio mewn Pwyllgorau Sgriwtini ynglŷn ag yfed o dan oed yng Nghaergybi. Gwnaeth apêl i'r Aelodau sicrhau eu bod yn sôn am eu pryderon wrth y Pwyllgor Trwyddedu pan fyddai'r Pwyllgor hwnnw'n ystyried ceisiadau am drwyddedau tafarndai a chlybiau.

Roedd yn ymwybodol fod pryder wedi'i fynegi yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â chadw celloedd gorsaf heddlu Caergybi. Roedd wedi ymweld â Gorsaf Heddlu Caernarfon yn ddiweddar lle roeddent wedi uwchraddio a chynyddu capasiti'r celloedd er mwyn bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch yng nghyswllt cadw carcharorion. Y defnyddwyr mwyaf ar y celloedd hyn oedd achosion cyffuriau ac alcohol a rhai gyda materion iechyd meddwl. Pan oedd wedi ymweld â Chaernarfon, roedd y celloedd yn llawn ac roedd rhai carcharorion wedi'u cludo i Lanelwy.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau ei fod ef a'r Arweinydd ddoe wedi cael cyfarfod gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig o safbwynt plismona ar yr Ynys. Yn amodol ar gytundeb Cadeirydd y Cyngor Sir, y bwriad oedd galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Ionawr i drafod materion mewn manylder gyda Heddlu Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 14. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 15. ADRODDIAD CYNNYDD Y COMISIYNWYR AR YR AIL CHWARTER

Rhoddodd y Comisiynydd Nick Giannasi adroddiad llafar bod yr adroddiad Chwarter 2 wedi'i gwblhau a'i dderbyn ddoe gan y Comisiynwyr ac y byddent yn cyfarfod gyda'r Gweinidog ganol mis Rhagfyr i drafod ei gynnwys. Wedi hynny, yn amodol ar ei gytundeb, byddai'r adroddiad yn cael ei wneud yn gyhoeddus a byddai datganiad yn cael ei ryddhau i'r wasg. Nid oedd, felly, yn briodol trafod yr adroddiad heddiw mewn fforwm cyhoeddus. Rhoddodd, felly, drosolwg eang o gynnwys yr adroddiad gyda'r amod bod angen cydnabod y gallai'r adroddiad fod yn agored i'w newid.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod o fis Gorffennaf i Medi 2001 ac roedd yn adroddiad mwy gwrthrychol yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Chwarter 2. Roedd y camau a gymerwyd i alluogi i hynny ddigwydd wedi cymryd peth amser i'w datblygu ochr yn ochr â'r fframwaith perfformiad sy'n dod i'r amlwg. Roedd y peirianwaith hwnnw bellach yn ei le.

Roedd y Prif Weithredwr yn dymuno gwneud y sylw mai pwynt bychan technegol oedd wedi rhwystro i'r adroddiad gael ei drafod mewn sesiwn agored heddiw. Roedd yr adroddiad ar ffurf drafft ar hyn o bryd ond byddai ar gael yn fuan ac yna fe fydd yn agored i sgriwtini cyhoeddus.

Ceisiodd y Cynghorydd A. Morris Jones gael sicrwydd mai ar gyfer mis Mawrth 2012 y trefnwyd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, ac y dylai cyfarfod arbennig o'r Cyngor gael ei gynnal er mwyn gallu trafod cynnwys y dogfennau mor fuan â phosibl.

Wrth ateb, dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn eithaf posibl y byddai'n rhaid cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir ganol mis Ionawr ac efallai y byddai hwn yn amser purion i drafod adroddiad Chwarter 2. Byddai'n cysylltu gyda'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ynglŷn â hyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a nodi hefyd y byddai'r adroddiad Chwarter 2 terfynol ar gael i'r Aelodau ac i'r cyhoedd ganol fis Rhagfyr.**

## 16. UWCH GRŴP ARWEINYDDIAETH A THREFNIADAU SEFYDLIADOL Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

**PENDERFYNWYD y byddai'r mater yn cael ei ohirio hyd ddydd Mawrth nesaf yn dilyn y cyfarfod arbennig o'r Cyngor Sir i drafod yr adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4:10pm

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**CADEIRYDD**